**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwf Gwledig 16 Chwefror 2022, 12:00**

**Yn bresennol**

**AS**
James Evans
Russ George
Mark Isherwood
Tom Giffard
Samuel Kurtz
Llyr Gruffydd

**Staff Cymorth**
Dan Rose (Swyddfa Carolyn Thomas)
Rhys Taylor (Swyddfa Jane Dodds)
Rhys Thomas (Swyddfa Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig)
Aled Hughes (Swyddfa Cefin Campbell)
Mike Bryan (Swyddfa Sam Kurtz)
James Wallice (Swyddfa Sam Kurtz)

**Sefydliadau allanol**
Robert Dangerfield – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
Nigel Hollett – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
Kate Rees – Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Liz Smith – Cyswllt Amgylchedd Cymru

**Ymddiheuriadau**
Laura Jones AS
Cefin Campbell AS
Carolyn Thomas AS
Jane Dodds AS

Cynhaliwyd etholiad ar gyfer rôl y Cadeirydd, a chafodd Samuel Kurtz AS ei ethol.

Cafwyd enwebiadau ar gyfer rôl yr ysgrifenyddiaeth, a chytunodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru i ymgymryd â'r rôl.

Croesawodd Samuel Kurtz y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Yna, eglurodd rôl y Grŵp Trawsbleidiol, ac amlinellodd y rheolau y byddai'r grŵp yn ddarostyngedig iddynt wrth weithredu.

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol wahoddiad i gyflwyno eu hunain, ac i sôn am yr ardaloedd a'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli.

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol drafodaeth fer er mwyn cadarnhau eu prif ddiddordebau mewn perthynas â gwaith y grŵp, ac er mwyn cytuno ar ei Ddatganiad Cenhadaeth, sef *"Trafod ariannu amaethyddiaeth a thwf yr economi wledig – ar ôl COVID ac ar ôl ymadael â'r UE."*

- Amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi
- Cysylltedd
- Y drefn gynllunio a'i rôl mewn datblygiadau preswyl a busnes cyfrifol

- Tai gwledig a datblygu cymdeithasol
- Rôl yr amgylchedd / y gymuned wledig o ran cyflawni amcanion sero net ac ansawdd aer
- Y dirwedd naturiol wledig a'i heffaith ar y gymuned (llifogydd ac ati)

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn gyfarfod wyneb yn wyneb a fyddai’n cael ei gynnal tua diwedd mis Mai. Cytunwyd hefyd y byddai’r grŵp yn cynnal cyfarfod yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30